



YSGOL I.D. HOOSON

Gorffennaf 10fed, 2020

PWYSIG

Annwyl Rien / Gofalwyr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, hoffwn dynnu eich sylw tuag at rhai pethau pwysig cyn i'r ysgol gau am wyliau'r haf.

Adroddiadau Blynyddol, canlyniadau profion cenedlaethol rhifedd a llythrennedd, asesiadau athro/awes diwedd cyfnod Sylfaen/Cyfnod allweddol 2 - Dros y dyddiau nesaf byddwch yn derbyn adroddiad blynyddol eich plentyn ar ffurf ffeil PDF. Bydd yr adroddiad yn cael ei anfon drwy gyfrif HWB eich plentyn. Os y dymunwch dderbyn copi papur, yna a fydddech cystal a chyslltu gyda'r athro/awes ddsbarth drwy e.bost i drefnu amser cyfleus i'w gasglu. Mae'r amgylchiadau wedi bod yn dra wahanol eleni am resymau amlwg. Mae'r athrawon wedi cynhyrchu adroddiad sydd wedi ei seilio ar wybodaeth a chynnydd eich plentyn hyd at ddiwedd Mawrth pan y bu i'r ysgol gau. Nid yw disgyblion blynyddoedd 2 i 6 wedi cwblhau profion darllen a rhifedd cenedlaethol, a ni fydd ysgolion Cymru yn cyflwyno asesiadau athro ar gyfer blynyddoedd 2 a 6 i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cynnwys ffigwr presenoldeb ar gyfer eich plentyn, sydd yn gyfanswm hyd at fis Mawrth pan gaewyd yr ysgol. Dwi'n siŵr y gwnewch ddarllen yr adroddiad yn ofalus gyda'ch plentyn a chael cyfle i drafod y cynnwys gyda'ch plentyn. Os dymunwch gael sgwrs am yr adroddiadau gydag athro/awes eich plentyn, yna mae croeso i chi wneud hyn drwy drefnu amser cyfleus gyda'r athro/awes ddsbarth. Oherwydd yr amgylchiadau o ran iechyd a diogelwch, bydd angen i chi drefnu amser ar gyfer hyn drwy e.bostio yr athro/awes ddsbarth i drefnu sgwrs dros y ffôn.

Llyfrau Darllen - Rydym yn gobeithio fod yr offer a fenthycwyd i deuluoedd a phlant dros y misoedd diwethaf wedi bod o ddefnydd ac o gymorth. Gan ein bod yn awr ar gyfnod diwedd y tymor a diwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, hoffem i'r holl lyfrau darllen sydd wedi ei benthyc, gael ei dychwelyd i'r ysgol os gwelwch yn dda. A fydddech cystal a gosod y llyfrau mewn amlen, gyda enw eich plentyn ar y blaen. Gofynnwn i chi ddychwelyd y llyfrau i focs a fydd wedi ei leoli y tu allan i ddrws neuadd yr ysgol yn ystod yr wythnos. Er diogelwch pawb, ac er mwyn rheoli y niferoedd o bobl sydd yn dod i'r ysgol, dim ond ar yr amseroedd a nodir isod y dylech ddychwelyd unrhyw lyfrau. Diolch.

Derbyn - Miss L Lewis	10.15a.m.-11.00 p.m. (14.07.20)
Blwyddyn 1&2 Miss M Davies	9.15a.m. - 10a.m. (14.07.20)
Blwyddyn 1&2 Miss D Dempsey	11.30 - 12.30 (14.07.20)
Blwyddyn 1&2 Mrs S Jones	1 - 2 (14.07.20)
Blwyddyn 3 & 4 Miss Ch Williams	10 - 11 (16.07.20)
Blwyddyn 3 & 4 Miss C Darlington	10 - 11 (15.07.20)
Blwyddyn 3 & 4 Mr D Jones	11.30 - 12.30 (16.07.20)
Blwyddyn 5 & 6 Mrs M Williams	11.30-12.30 (15.07.20)
Blwyddyn 5 & 6 Miss E Evans	1 - 2 (16.07.20)
Blwyddyn 5 & 6 Mr S Owen	1 - 2 (15.07.20)

Presenoldeb a Gwyliau - Yn y gobaith y bydd y sefyllfa o ran y Coronafirws yn gwella ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf, mi fydd presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn allweddol tuag at lwyddiant academaidd eich plentyn. Byddwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol wrth gynllunio tuag at y flwyddyn nesaf. Pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, byddwn angen i'ch plentyn fod yn yr ysgol ar gyfer pob diwrnod posib yn ystod y flwyddyn, oni bai fod rheswm dilys a thystiolaeth o'r angen am absenoldeb e.e. salwch, apwyntiad meddygol.

Wrth i ni agosáu at y gwyliau, hoffwn eich annog unwaith eto os gwelwch yn dda i feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu eich gwyliau gyfer y flwyddyn 20-21, a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais trwy lythyr os am gymryd eich plentyn o'r ysgol am wyliau neu ymweliadau eraill sydd ddim yn gysylltiedig ag addysg eich plentyn. Gweler taflen dyddiadau tymhorau ysgol 20-21, a fydd yn eich galluogi i drefnu unrhyw wyliau i gyd-fynd gyda dyddiadau'r tymor a gwyliau'r ysgol.

Cylch Meithrin a lleoliad dosbarthiadau - Mi fydd rhai newidiadau i leoliadau dosbarthiadau gwahanol ar draws yr ysgol o fis Medi ymlaen. Bydd y dosbarth Meithrin yn symud i ystafell ble mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli ar hyn o bryd, a bydd y Cylch Meithrin yn symud i'r caban agosaf. Byddwn yn hysbysu rhieni y plant sydd yn mynychu'r Cylch Meithrin o drefniadau gollwng a chasglu plant. Bydd un o ddosbarthiadau blwyddyn 1 a 2 yr ysgol a leolir yn un o'r cabanau, yn symud i mewn i'r prif adeilad. Cofiwch fod y Cylch Meithrin yn parhau i gael ei leoli ar safle'r ysgol, ac ar gael i blant Zoed neu fwy. Cysylltwch a'r ysgol am fwy o wybodaeth neu gwiriwch ei safle Facebook.

Arian sydd yn ddyledus - Gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gan ddyledion i'w talu i'r ysgol e.e. arian cinio a chlwb ar ôl ysgol i wneud hyn cyn diwedd y tymor. Ni fydd yn bosib cynnig cinio ysgol na lle yn y clwb ar ôl ysgol ym mis Medi hyd nes y bydd unrhyw ddyledion wedi'i talu. Os ydych yn ansicr, yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol. Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad prydlon gyda'r mater pwysig hwn.

Pris cinio ysgol yn mis Medi fydd £2.35 i ddisgyblion Derbyn i flwyddyn 2, ac yna £2.40 i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6.

Gwisg ysgol

Rydym ar **drothwy** gwyliau'r haf, ac mae'n debyg y bydd yn amser am wisg ysgol neywd di rai o'r plant ar gyfer mis Medi. Hoffwn eich atgoffa o drefniant gwisg ysgol o Fedi 2020 ymlaen. Yn unol â'r polisi gwisg ysgol, bydd y wisg ysgol bresennol yn parhau sef trowsus glas/sgert las, crys polo a chrys chwys glas neu gardigan yr ysgol.

Gofynnir i **bob** plentyn wisgo esgidiau du i'r ysgol. Ni **CHANIATEIR TRAINERS DU SYDD WEDI'I LABELU** trainers du sydd wedi'i labelu gan wneuthurwyr megis Nike, Adidas ayyb, ac ni chaniateir esgidiau sodlau uchel /high heels. Mae lluniau isod yn dangos yn glir beth sydd yn ac sydd ddim yn dderbyniol. Mae felly digon o amser dros yr haf i chi baratoi ar gyfer trefnu gwisg ysgol ac esgidiau ysgol eich plentyn. Hefyd mae disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol, sef **crys polo/ T glas a siorts glas**.

Dylid labelu pob dilledyn gydag enw'r plentyn. Mae gwisg ysgol ar gael drwy gwmni RAM.



Dosbarthiadau Medi 2020

Yn dilyn diweddariad Y Gwenidog Addysg Kirsty Williams y bydd ysgolion yn awr yn agor i bob plentyn o Fedi ymlaen, mae cryn dipyn o baratoi a chynllunio pellach o'n blaen ar gyfer y cam yma. Mae'n debyg y bydd yr wythnosau cyntaf yn gyfle i ddod a'r plant i mewn yn raddol, ond nid yw'r trefniadau na'r canllawiau ar gyfer hyn eto wedi ei cadarnhau. Byddwn yn eich hysbysu o'r trefniadau ar gyfer Medi pan fyddwn wedi cwblhau y broses gynllunio. Er nad ydym felly yn sicr o'r trefniadau terfynol o ran pryd y bydd eich plentyn yn dychwelyd yn mis Medi, rydym wedi trefnu'r plant i mewn i'w dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn 2020-21. Bydd rhai plant yn aros gyda'r un athro/awes, gyda eraill yn cael ei dysgu gan athro/awes wahanol i'r un bresennol, wrth symud ymlaen i'w grwp blwyddyn newydd. Fel ym mhob blwyddyn, mae llawer iawn o waith meddwl a thrafod wedi digwydd ymysg staff yr ysgol wrth benderfynu ar drefniadau terfynol y dosbarthiadau, ac felly hyderwn y bydd y trosglwyddo yn broses llyfn a chyfforddus i'r plant i gyd. Byddwch yn derbyn y rhestr yma gyda'r adroddiad drwy gyfri Hwb eich plentyn. Byddwn yn eich hysbysu o drefniadau terfynol ar gyfer Medi, gan gynnwys amserlen, trefniadau cinio ysgol, clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol, trefniadau gollwng i ffwrdd a chasglu plant, cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn arweiniad pellach gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd gwybodaeth yn cael ei anfon drwy wefan yr ysgol, schoop, a drwy app newydd yr ysgol. Gallwch gael mynediad i'r app yma am ddim drwy'r 'app store' ar ffôn symudol, neu ddefnyddio'r codiau QR isod.



Staffio- Bydd ychydig o newidiadau i strwythyr staffio yr ysgol o fis Medi ymlaen. Byddwn yn ffarwelio ac yn creoesawu staff. O ran dweud hwyl fawr, byddwn yn ffarwelio gyda Mrs Rachel Clode Walters, Miss Lowri Jones a Miss Sian Davies, sydd wedi bod yn gweithio yn yr ysgol fel cymorthyddion dosbarth. Byddwn hefyd yn ffarwelio gyda Mrs Bethan Fell, Mrs Miriam Jones, Miss Charlotte Williams a Mrs Sophie Jones sydd wedi bod yn gweithio fel athrawon yn yr ysgol.

Mae rhai ohonynt wedi bod yn aelodau o staff yr ysgol am gyfnodau hir iawn, ac eraill am gyfnodau llai o amser. Yn anffodus, gyda'r sefyllfa fel ag y mae hi, ni fydd yn bosib i'r ysgol gyfan ddod at ei gilydd i ffarwelio gyda'r staff, ond rydym yn dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol, ac yn diolch yn fawr iddynt i gyd am eu cyfraniadau gwerthfawr i Ysgol I D Hooson..

Wrth i ni ffarwelio gyda staff, byddwn hefyd yn croesawu staff. Byddwn yn croesawun Miss Bethan Morris yn ôl i'r ysgol yn dilyn ei chyfnod secondiad fel cydgysylltydd Siarter Iaith Fflint a Wrecsam. Bydd Miss Morris yn dychwelyd i'w chyfrifoldeb fel athrawes ar flwyddyn 3 a 4. Byddwn hefyd yn croesawu Miss Esther Richards fel aelod newydd o staff yr ysgol. Bydd Miss Richards yn cymryd cyfrifoldeb dros un o ddsbarthiadau blwyddyn 1 a 2 yr ysgol.

Dymunwn yn dda hefyd wrth gwrs i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn ein gadael i gychwyn ar fywyd yn yr ysgol Uwchradd. Diolch iddynt am ei gwaith caled yn ystod eu cyfnod yn Ysgol I D Hooson, a phob lwc iddynt ar gyfer mis Medi ac i'r dyfodol wrth iddynt gychwyn ar fywyd yn yr ysgol uwchradd.

Yn olaf, hoffwn ddymuno yn dda i'r plant ac i chi fel rhieni a gofalwyr dros yr haf, bydd yr ysgol yn cau ar **ddydd Gwener Gorffennaf y 17eg**, a bydd yn eich hysbysu yn fuan i gadarnhau dyddiadau dychwelyd i'r plant ar gyfer Medi.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad gyda'r materion uchod.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones

Pennaeth